# Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

**2014 dccc 1**

*Cyffredinol*

## 10 Adolygu gweithrediad y Ddeddf

Rhaid i Weinidogion Cymru, heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf 2016, adolygu gweithrediad y Ddeddf hon gyda'r bwriad yn benodol o asesu ei heffaith ar—

(a) ariannu addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond sydd heb gyrraedd 19 oed,

(b) y ddarpariaeth Gymraeg mewn sefydliadau o'r fath, ac

(c) y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol mewn sefydliadau o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(2)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 1.9.2014 gan O.S. 2014/1706, **ergl. 3(i)**

## 11 Cychwyn

(1) Daw adran 9, yr adran hon ac adran 12 i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar y diwrnod y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—

(a) pennu gwahanol ddiwrnodau at wahanol ddibenion;

(b) cynnwys darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad y Ddeddf hon i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 11 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

## 12 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 12 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, Croes Bennawd: Cyffredinol.